POLISI DIOGELU

Mae Career Choices Dewis Gyrfa Cyf (CCDG), sy'n masnachu fel Gyrfa Cymru Careers Wales, yn is-gwmni sy'n eiddo'n gyfan gwbl i Lywodraeth Cymru a ffurfiwyd ar 1 Ebrill 2013 er mwyn darparu gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd annibynnol, diduedd a dwyieithog yng Nghymru. Drwy gydol y polisi hwn cyfeirir at CCDG yn ôl ei enw masnachu.

DATGANIAD POLISI

Mae Gyrfa Cymru yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd i blant, pobl ifanc ac oedolion gymryd rhan mewn gweithgareddau cyngor ac arweiniad gyrfaol a gweithgareddau cysylltiedig.

Mae Gyrfa Cymru yn cydnabod ei gyfrifoldeb i ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl sy'n defnyddio ei wasanaethau. Mae gan bawb sy'n dod i gysylltiad â phlant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl rôl i'w chwarae o ran diogelu a hyrwyddo eu lles. Mae Gyrfa Cymru wedi ymrwymo i sefydlu a chynnal diwylliant sy'n caniatáu i'w weithwyr adnabod ac adrodd am bryderon.

Paratowyd y polisi i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol yng Nghymru. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl yng Nghymru y mae angen gofal a chymorth arnynt ac fe'i hategir gan ddeddfwriaeth berthnasol arall sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i Ddeddfau Plant 1989 a 2004; Deddf Hawliau Dynol 1998, Deddf Diogelu Grwpiau Bregus 2006; Deddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Diogelu Rhyddidau 2012; Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015; Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015; Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015; Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).]

Bydd Gyrfa Cymru yn cydymffurfio â Gweithdrefnau Diogelu Cymru, Cadw Dysgwyr yn Ddiogel yn ogystal â gweithdrefnau a gynhyrchir gan y Byrddau Diogelu Rhanbarthol (BLIDP) yng Nghymru.

Mae'r ymateb i bandemig y coronafeirws (COVID-19) wedi newid ein bywydau'n ddramatig. Mae oedolion a phlant yng Nghymru yn wynebu heriau gwirioneddol a dybryd i'w hiechyd a'u lles. Yn ystod y cyfnod hwn, gall Gyrfa Cymru ddarparu gwasanaethau o bell neu drwy gyswllt pell ac wrth wneud hynny bydd yn cydymffurfio â chanllawiau rhaglen 'Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu'.

Mae'r polisi hwn hefyd yn ystyried cyfrifoldeb Gyrfa Cymru mewn perthynas â'i ddyletswydd o fewn y Strategaeth 'Prevent' mewn perthynas ag amddiffyn unigolion sydd mewn perygl o fod yn agored i eithafiaeth.

EGWYDDORION Y POLISI

Nod cyffredinol y polisi hwn yw diogelu a hyrwyddo lles a lles plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl y mae gweithwyr Gyrfa Cymru yn dod i gysylltiad â hwy.

Nid yw gwahaniaethu o unrhyw fath yn dderbyniol a bydd pawb sy'n dod i gysylltiad â gweithwyr Gyrfa Cymru yn cael eu trin ag urddas a pharch, yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Pholisi Urddas a Pharch Gyrfa Cymru.

Bydd y polisi hwn yn helpu gweithwyr Gyrfa Cymru i ddiogelu lles plant, pobl ifanc ac oedolion y maent yn gweithio gyda hwy ac i ddiogelu eu hunain yn erbyn honiadau.

Mae'r polisi hwn yn annog cyflogeion i godi unrhyw bryderon ynghylch Diogelu i'r Uwch Bersonau Dynodedig, y Cyfarwyddwr Cyflenwi a Datblygu ac os nad yw'r mater yn parhau heb ei ddatrys, cyfeirir cyflogeion at Bolisi Chwythu'r Chwiban Gyrfa Cymru.

Mae Gyrfa Cymru yn cydnabod:

- Bod diogelwch a lles ei Ddefnyddwyr yn hollbwysig ac yn cael blaenoriaeth dros bob ystyriaeth arall.
- Ei bod yn ddyletswydd arno i hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles ei gyflogeion a bod ganddo gyfrifoldeb i sicrhau yr ymdrinnir â datgeliadau, honiadau/pryderon diogelu mewn modd teg, cyson ac amserol ac yn unol â chanllawiau statudol.
- Y dylid ymdrin â phob mater sy'n ymwneud â diogelu ar-lein yn yr un modd â rhyngweithio wyneb yn wyneb a chyswllt â phlant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl.

Pan fydd Gyrfa Cymru yn cael datgeliad, honiad neu bryder diogelu sy'n ymwneud â chyflogai, ymdrinnir â hyn yn unol â Gweithdrefn Ddiogelu Gyrfa Cymru.
Bydd Gyrfa Cymru yn sicrhau bod cymorth, gwybodaeth a chyngor priodol ar gael i bawb yr effeithir arnynt yn ystod y broses hon. Bydd Swyddog Dynodedig perthnasol yr Awdurdod Lleol ar gyfer Diogelu (LADO) yn rhoi cyngor ar y camau i'w cymryd; drwy gyfarwyddyd gan yr Heddlu/Gwasanaethau Cymdeithasol, cyn gynted â phosibl a heb wneud niwed i'r ymchwiliad, dylid hysbysu'r aelod o staff am yr honiadau.

Dylai unrhyw gyflogai sy'n destun yr honiad (a'r chwythwr chwiban) gael mynediad at wasanaethau cymorth annibynnol os dymuna. Pan na eir ar drywydd ymchwiliad, gall Gyrfa Cymru benderfynu cychwyn camau disgyblu.

Rhaid i Gyrfa Cymru hysbysu Llywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd pan ddiswyddir cyflogai ar sail camymddygiad neu os yw'n ymddiswyddo mewn amgylchiadau a fyddai wedi arwain at ddiswyddo.

DIFFINIADAU

At ddibenion y polisi hwn, mae'r diffiniadau canlynol yn berthnasol:

- Mae'r term 'cyflogai' yn berthnasol i holl weithwyr amser llawn a rhan-amser, parhaol neu dros dro Gyrfa Cymru ac mae hefyd yn cynnwys staff asiantaeth, a'r rhai sydd ar leoliad gyda Gyrfa Cymru.
- Mae'r term 'gweithwyr perthnasol' yn berthnasol i'r holl gyflogeion y disgwylir iddynt gael cyswllt heb oruchwyliaeth â phobl ifanc neu oedolion.
- Mae gweithgaredd a reoleiddir yn weithgaredd sy'n cynnwys cyswllt perthnasol â phlant neu oedolion ac sydd o natur benodol yn aml, yn ddwys (3 diwrnod neu fwy mewn unrhyw gyfnod o 30 diwrnod) neu dros nos
- Mae 'gwirfoddolwyr' yn gynrychiolwyr o asiantaethau busnes a chymunedol lleol a nodir gan Gyrfa Cymru i gefnogi gweithgareddau gyda phobl ifanc mewn canolfannau dysgu

At ddibenion y polisi hwn, mae'r diffiniadau canlynol yn berthnasol:

- Plentyn neu berson ifanc yw unrhyw berson o dan 18 oed
- Mae plentyn neu berson ifanc sydd mewn perygl yn unigolyn o dan 18 oed sy'n profi neu sydd mewn perygl o gael ei gam-drin, ei esgeuluso neu fathau eraill o niwed; a sydd ag

anghenion gofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod lleol yn diwallu unrhyw un o'r anghenion hynny ai peidio)

- Mae oedolyn sydd mewn perygl yn unigolyn 18 oed a throsodd sydd:
    1. Yn profi neu mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso,
    2. Ag anghenion gofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un o'r anghenion hynny ai peidio), ac
    3. O ganlyniad i'r anghenion hynny, nid yw'n gallu amddiffyn ei hun rhag y cam-drin neu'r esgeulustod na'r risg o gam-drin neu esgeulustod.

Mae defnyddio'r term 'mewn perygl' yn golygu nad oes angen i gam-drin neu esgeuluso gwirioneddol ddigwydd fel y dylid ystyried ymyriadau cynnar a chymorth i amddiffyn plentyn neu oedolyn sydd mewn perygl er mwyn atal cam-drin ac esgeulustod gwirioneddol.

Mae Gyrfa Cymru yn cydnabod bod Deddf Galluedd Meddyliol 2005 wedi'i chynllunio i hyrwyddo a diogelu'r broses o wneud penderfyniadau o fewn fframwaith cyfreithiol a'i bod yn seiliedig ar bum egwyddor allweddol. Mae'r MCA yn diogelu ac yn grymuso pobl i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain lle bynnag y bo modd ac mae'n berthnasol i bobl 16 oed a throsodd. Mae gan bob person, yn ôl yr MCA, yr hawl i wneud ei benderfyniadau ei hun a rhaid tybio bod ganddo'r gallu i wneud hynny oni phrofir fel arall.

CYMHWYSO'R POLISI

Mae'r polisi hwn yr un mor berthnasol i blant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl.

Mae Gyrfa Cymru wedi sefydlu 'Cod Ymddygiad - Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus' y disgwylir i bob cyflogai ei ddilyn. O dan y Cod hwn, mae Gyrfa Cymru yn disgwyl i bob cyflogai amddiffyn y plant, y bobl ifanc a'r oedolion y maent yn gweithio gyda hwy drwy roi gwybod am bryderon yn brydlon. Bydd methu â gwneud hynny yn weithred o hepgoriad ar ran y cyflogai. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar bartneriaid perthnasol awdurdod lleol i roi gwybod i blant ac oedolion pan fo pryderon eu bod 'mewn perygl o niwed'.
Rhannu Gwybodaeth - Mae rhannu a chyfnewid gwybodaeth berthnasol yn effeithiol rhwng gweithwyr proffesiynol yn hanfodol i ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion.

- Rhaid i gyflogeion beidio â gwarantu cyfrinachedd i unrhyw un sy'n datgelu camdriniaeth
- Dylid nodi y gall barnwr neu ombwdsmon orchymyn datgeliad llawn mewn rhai amgylchiadau
- Dylai gweithwyr proffesiynol sy'n bresennol mewn unrhyw gyfarfodydd a gynhelir fel rhan o'r broses amddiffyn oedolion ymrwymo i ddatganiad cyfrinachedd y cyfarfod a glynu ato

Am fanylion, gweler (Saesneg yn unig) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Rhannu Gwybodaeth i Ddiogelu Plant ac Oedolion (Gorffennaf 2019)

gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-cyfrol-5-ymdrin-ag-achosion-unigol-i-amddiffyn-plant-syn-wynebu-risg.pdf (llyw.cymru)
gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-cyfrol-6--ymdrin-ag-achosion-unigol-i-amddiffyn-oedolion-syn-wynebu-risg_0.pdf (llyw.cymru)

Cadw Dysgwyr yn Ddiogel - Canllawiau

Cyflwynir ein gwaith mewn lleoliadau dysgu yng nghyd-destun y canllawiau diweddaraf - https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-10/cadw-dysgwyr-yn-ddiogel-rol-awdurdodau-lleol-cyrff-llywodraethu-a-pherchnogion-ysgolion-annibynnol-o-dan-ddeddf-addysg.pdf

Diben y canllawiau hyn yw helpu pob lleoliad addysg i sicrhau bod ganddynt systemau ddiogelu effeithiol ar waith. Mae'n nodi cyfrifoldebau awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu pob ysgol a gynhelir (mae cyfeiriadau at ysgolion drwy gydol y ddogfen hefyd yn berthnasol i unedau cyfeirio disgyblion), sefydliadau addysg bellach (y cyfeirir atynt fel colegau yn y canllawiau hyn o'r pwynt hwn ymlaen) a pherchenogion ysgolion annibynnol, i gael trefniadau ar gyfer arfer eu swyddogaethau i ddiogelu hyrwyddo lles plant yng Nghymru. Mae'r canllawiau hefyd yn berthnasol i asiantaethau sy'n chyflenwi staff i'r sector addysg, contractwyr sy'n gweithio mewn sefydliadau addysg sy'n gyfrifol am bobl ifanc dan 18 oed, yn ogystal â darparwyr addysg a hyfforddiant eraill i rai dan 18 oed. Yn ogystal, mae'r canllawiau hefyd yn berthnasol i Bartneriaethau ADY y mae'n ofynnol iddynt sicrhau bod pob athro dan hyfforddiant yn cael cyfnodau penodedig o brofiad ysgol ar gyfer hyfforddiant mewn ysgol.

ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU
(Ceir rhagor o fanylion yn y gweithdrefnau Diogelu)

Mae Gyrfa Cymru yn cydnabod mai cyfrifoldeb statudol Adran Gwasanaethau Cymdeithasol berthnasol yr Awdurdod Lleol a'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol ar gyfer plant ac oedolion sydd mewn perygl yw lles plant ac oedolion.

Yr Uwch Dîm Rheoli sy'n gyfrifol yn y pen draw am ddiogelu o fewn Gyrfa Cymru.

Y Cyfarwyddwr Cyflenwi a Datblygu fydd yr Uwch Swyddog Dynodedig a'r arweinydd ar ran yr Uwch Dîm Rheoli a Bwrdd CCDG a bydd yn atebol am faterion Diogelu.

Mae'r uwch dîm rheoli yn gyfrifol am sicrhau y glynir wrth y polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig.

Bydd Rheolwyr Tîm yn ymdrin ag atgyfeiriadau uniongyrchol ac yn cynnwys eu Rheolwr Llinell fel y nodir yn y gweithdrefnau.

Disgwylir i holl weithwyr Gyrfa Cymru fod yn ymwybodol o'r polisi hwn a'i gymhwyso'n ymarferol.

Mae'n ddyletswydd ar bawb ymddwyn mewn modd sy'n diogelu ac yn hyrwyddo lles plant ac oedolion sydd mewn perygl. Mae hyn hefyd yn eu diogelu rhag honiadau anwir a chamymddwyn.

Nid yw Gyrfa Cymru yn disgwyl i gyflogeion fod yn arbenigwyr wrth adnabod niwed, camdriniaeth ac esgeulustod; mae'r categorïau o gam-drin a restrir yn enghreifftiol. Dylai cyflogeion fod yn ymwybodol o'r diffiniadau o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014,

CATEGORÏAU CAM-DRIN

Mae'r canlynol yn rhestr anghyflawn o enghreifftiau ar gyfer pob un o'r categorïau o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod y mae Gyrfa Cymru wedi'u nodi:

- **Cam-drin corfforol** yw'r defnydd bwriadol o rym corfforol a allai arwain at anaf corfforol, poen corfforol neu nam. Gall niwed corfforol gael ei achosi hefyd pan fydd un sy'n rhoi gofal yn ffugio neu'n achosi salwch mewn unigolyn y mae'n gofalu amdano. Mae hyn hefyd yn cynnwys Anffurfio Organau Rhywiol Merched.

- Mae **cam-drin rhywiol** yn golygu gorfodi neu ddenu person ifanc neu oedolyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol uniongyrchol neu anuniongyrchol y mae'n amharod neu'n methu â rhoi caniatâd gwybodus iddynt, neu nad yw'n eu deall yn llawn, neu sy'n torri tabwau cymdeithasol rolau teuluol, er enghraifft, llosgach. Gall y gweithgareddau gynnwys cyswllt corfforol, gan gynnwys gweithredoedd treiddiol neu anhreiddiol.

- **Cam-drin emosiynol neu seicolegol** yw trin person ifanc neu oedolyn yn wael gan arwain at ddioddefaint meddyliol, a hynny'n fwriadol, ac weithiau'n barhaus. Gall olygu cyfleu i berson ifanc neu oedolyn ei fod yn ddiwerth neu'n ddigariad, yn annigonol neu'n cael ei werthfawrogi dim ond i'r graddau y mae'n diwallu anghenion person arall. Gall gynnwys gosod disgwyliadau sy'n amhriodol o ran oedran neu ddatblygiad ar y person. Gall olygu achosi iddo deimlo'n ofnus neu mewn perygl yn aml, er enghraifft drwy weld cam-drin domestig yn y cartref, neu gael ei fwlio, neu gam-fanteisio neu lygru person ifanc neu oedolion. Mae rhyw lefel o gam-drin emosiynol yn ymwneud â phob math o gamdriniaeth wedi'i dargedu at blentyn neu oedolyn, er y gallai ddigwydd ar ei ben ei hun.

- **Cam-drin ariannol neu faterol** yw unrhyw achos o ddwyn neu gamddefnyddio arian, eiddo neu adnoddau plentyn/person ifanc neu oedolyn. Gall gynnwys gorfodi a/neu fygwth a gall gynnwys e.e. cyfyngu ar fynediad at arian neu adnoddau eraill neu drwy orfodi cyfrifoldeb ariannol ar y plentyn, y person ifanc neu'r oedolyn gan berson mewn safle lle mae'r plentyn, person ifanc neu oedolyn yn ymddiriedaeth ynddo, neu lle mae hynny'n ddisgwyliad.

- **Esgeulustod** yw'r methiant parhaus i ddiwallu angen corfforol a/neu seicolegol sylfaenol person ifanc neu oedolyn, sy'n debygol o arwain at nam difrifol ar ei iechyd neu ei ddatblygiad. Gall olygu lle mae rhiant neu ofalwr yn methu â darparu bwyd, lloches a dillad digonol, methu â'i ddiogelu rhag niwed neu berygl corfforol, neu fethu â sicrhau mynediad at ofal neu driniaeth feddygol briodol. Gall hefyd gynnwys esgeuluso ei anghenion emosiynol sylfaenol, neu ddiffyg gweithredu i'w bodloni. Yn ogystal, gall esgeulustod ddigwydd yn ystod beichiogrwydd o ganlyniad i'r fam yn camddefnyddio sylweddau.

Mathau eraill o gam-drin

Mae Gyrfa Cymru wedi ymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl drwy hysbysu'r Gwasanaethau Cymdeithasol os nodir y canlynol yn ystod ei waith:

- **Gwahaniaethu a Throseddau Casineb.** Gall hyn fod yn nodwedd o unrhyw fath o gam-drin plentyn, person ifanc neu oedolyn ond gall hefyd fod wedi'i ysgogi oherwydd ei oedran, proses ailbennu rhywedd, rhyw, hil (gan gynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd), anabledd, beichiogrwydd a mamolaeth, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred (gan gynnwys diffyg cred.)

- **Cam-drin Domestig.** Gall hyn ddigwydd mewn perthynas ddomestig a gall gael effaith drawmatig ar unigolyn - un sydd weithiau'n bygwth ei fywyd.

- **Priodas dan Orfod.** Diffinnir hyn fel priodas a gynhelir heb gydsyniad dilys y ddau barti sy'n priodi a dan orfodaeth.

O ran Diogelu unigolion sydd mewn perygl o safbwyntiau eithafol, mae Gyrfa Cymru, yn unol â'i strategaeth Prevent (gweler atodiad 1), yn defnyddio'r un dull â diogelu mewn cyd-destunau eraill.

Cydnabyddir y gall unrhyw unigolyn, o unrhyw ran o gymdeithas, nad yw'n gysylltiedig ag unrhyw grŵp hiliol, ethnig neu gymdeithasol fod yn agored i gael ei ddylanwadu gan unigolion neu grwpiau sydd â safbwyntiau eithafol. Ar gyfer diogelu sy'n gysylltiedig â safbwyntiau eithafol dylai gweithwyr Gyrfa Cymru geisio cymorth gan Baneli'r cynllun Channel lle maent yn bodoli.

Dylai Gyrfa Cymru ymgynghori â Swyddog Dynodedig perthnasol yr Awdurdod Lleol os yw'n pryderu ynghylch a yw mater penodol yn fater diogelu.
.

RECRIWTIO A FETIO

Mae gan Gyrfa Cymru Bolisi a Gweithdrefnau Recriwtio a Dethol ar waith, gan gynnwys gweithdrefnau fetio sy'n cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru (a gyhoeddir o bryd i'w gilydd) a bydd yn cymryd pob rhagofal rhesymol i osgoi penodi personau anaddas i swyddi a fydd yn dod i gysylltiad â phobl ifanc neu oedolion.

At ddibenion y polisi hwn, mae'n ofynnol i bob cyflogai perthnasol (y rhai sy'n gweithio'n uniongyrchol gydag unigolion) (a gyflogir yn uniongyrchol gan Gyrfa Cymru) wneud cais am 'ddatgeliad manylach' a lle y bo'n briodol 'wiriad rhestr waharddedig' yn unol â gweithdrefnau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS); mae hyn yn berthnasol i aelodau newydd o staff neu i weithwyr sy'n newid rôl o fewn Gyrfa Cymru, nad oedd yn destun datgeliad manylach ar adeg ei benodiad gwreiddiol. Hyd yn oed os yw'r aelod newydd o staff wedi cael datgeliad yn ddiweddar gan gyflogwr blaenorol neu gan gyflogwr arall presennol, mae angen datgeliad newydd. Mae proses Adnoddau Dynol Gyrfa Cymru yn pennu pa rolau sydd angen gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar sail perthnasedd y gwaith o dan ddiffiniadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Y Cyfarwyddwr perthnasol fydd y sawl sy'n gwneud penderfyniadau terfynol.

Bydd gwiriadau'n cael eu cwblhau ar adeg penodi'r unigolyn ac yna ar gylch treigl tair blynedd. Cynhelir gwiriadau'n gynharach os yw'r aelod o staff yn cael seibiant o 3 mis neu fwy o'r gwasanaeth, pan fydd cyflogai yn dychwelyd i'r gwaith yn dilyn absenoldeb salwch neu absenoldeb mamolaeth estynedig neu os oes sail dros bryderu ynghylch addasrwydd yr unigolyn i weithio gyda phobl ifanc neu oedolion. Mae proses Adnoddau Dynol Gyrfa Cymru yn pennu pa rolau sydd angen gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar sail perthnasedd y gwaith o dan ddiffiniadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd o Weithgarwch a Reoleiddir. Y Cyfarwyddwr perthnasol fydd y sawl sy'n gwneud penderfyniadau terfynol.

Hyd nes y bydd Gyrfa Cymru wedi prosesu a chwblhau datgeliad manylach ac unrhyw wiriadau eraill, rhaid i gyflogeion beidio â gwneud gwaith heb oruchwyliaeth gyda chleientiaid mewn unrhyw sefyllfa.

Mae polisi Disgyblu a Chwyno Gyrfa Cymru yn datgan:

> *Mewn rhai amgylchiadau, e.e. diswyddiadau sy'n gysylltiedig ag amddiffyn plant, gall y diswyddo ddod o fewn y ddyletswydd statudol i roi gwybod i'r Awdurdodau Diogelu am ymddygiad y cyflogai. Mewn achosion o'r fath gall yr Heddlu a Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd adrodd ar y mater i'r Awdurdod Diogelu a bydd ei ymchwiliadau yn cael blaenoriaeth dros unrhyw ymchwiliad gan y Cwmni*.
>
> Mae gan Gyrfa Cymru ddyletswydd statudol hefyd i roi gwybod i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd am y cyflogai a ddiswyddwyd (Saesneg yn unig).
> https://www.gov.uk/guidance/making-barring-referrals-to-the-dbs

HYFFORDDIANT I WEITHWYR GYRFA CYMRU

Bydd holl weithwyr Gyrfa Cymru y disgwylir iddynt gael cyswllt heb oruchwyliaeth â phobl ifanc ac oedolion yn cael hyfforddiant priodol ar faterion diogelu gan gynnwys canllawiau ar adnabod arwyddion o gamdriniaeth a sut i wneud atgyfeiriad. Bydd yr hyfforddiant hwn yn cael ei gynnal ar raglen dreigl tair blynedd a chaiff ei fonitro gan y Gyfarwyddiaeth briodol sy'n arwain ar Ddysgu a Datblygu. Bydd ganddo gynnwys ar sut y dylai cyflogeion ymdrin â diogelu sy'n gysylltiedig â strategaeth Prevent.

Mae Gyrfa Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod rheolwyr a gweithwyr yn cael hyfforddiant diogelu priodol yn unol â'r lefel briodol. Mae angen i reolwyr hefyd fod yn gyfarwydd â gweithdrefnau chwythu'r chwiban, disgyblaeth a chwynion a'r ddeddfwriaeth berthnasol. Bydd gweithwyr Gyrfa Cymru yn cael eu hyfforddi i fod yn ymwybodol o arwyddion posibl safbwyntiau ac ymddygiadau eithafol.

- Bydd gweithwyr newydd, sy'n ymuno â Gyrfa Cymru, yn cael hyfforddiant sefydlu ar adnabod ac ymateb i gamdriniaeth os yw'n briodol i'w rôl.

- Bydd pob cyflogai a fydd yn gweithio un-i-un gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion yn derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth, adnabod ac atgyfeirio lefel 2.

- Bydd Rheolwyr Tîm a phob Rheolwr Llinell yn derbyn hyfforddiant lefel 3 yn ymwneud â'u rolau a'u cyfrifoldebau.

Yn dibynnu ar rôl yr unigolyn a chan ddilyn rhestr wirio'r cwmni drwy'r adran Adnoddau Dynol, efallai y bydd yn ofynnol i gyflogeion eraill dderbyn yr hyfforddiant hwn.

Dylai'r holl weithwyr a restrir uchod ymgymryd â hyfforddiant gloywi a diweddaru ar gyfnodau o ddim mwy na thair blynedd. Dylai'r hyfforddiant hwn ddefnyddio canfyddiadau ymchwil newydd, arferion gorau a dysgu o brofiad, yn lleol ac yn genedlaethol. Caiff ei addasu yn unol â rôl/cyfrifoldebau'r grwpiau o weithwyr.

Bydd Rheolwyr Tîm a'u rheolwyr llinell yn cael y wybodaeth ddiweddaraf os bydd newidiadau i ddeddfwriaeth yn ôl yr angen ac fel arall byddant yn cael hyfforddiant diweddaru bob tair blynedd. Caiff hyn ei fonitro gan y Cyfarwyddwr Cyflenwi a Datblygu mewn cydweithrediad â'r Pennaeth Datblygu Pobl.

GRWPIAU/UNIGOLION ERAILL SY'N GWEITHIO GYDA GYRFA CYMRU

O ran unrhyw wirfoddolwyr/siaradwyr a nodir gan Gyrfa Cymru i gefnogi ei waith mewn canolfannau dysgu: dylai Gyrfa Cymru gadw at weithdrefnau diogelu'r ganolfan ei hun. Ni ddylai unrhyw wirfoddolwyr/siaradwyr ymgymryd â gweithgareddau heb oruchwyliaeth gyda grwpiau o ddysgwyr.

Fel arfer, ni fydd angen gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyflogwyr sy'n cymryd rhan mewn lleoliadau profiad gwaith. Os bydd Gyrfa Cymru yn nodi cyflogwyr sy'n cynnig profiadau gwaith i gefnogi ei waith gyda dysgwyr sy'n iau na'r oedran gofynnol ar gyfer gadael yr ysgol, glynir wrth y canllawiau a amlinellir ar wefan yr HSE (Saesneg yn unig). www.hse.gov.uk/youngpeople/workexperience

Os yw Gyrfa Cymru yn darparu gweithgareddau lleoli ar gyfer myfyrwyr coleg a phrifysgol sy'n ymgymryd â chymhwyster cyfarwyddyd, bydd yn ofynnol i fyfyrwyr sy'n debygol o gael cyswllt un i un â phlant, pobl ifanc neu oedolion sydd mewn perygl gyflwyno datgeliad manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn y gall y lleoliad ddechrau. Ni ddylai'r datgeliadau manylach hyn ragddyddio'r dyddiad ymgeisio ar gyfer y cwrs.

Rhaid i unigolion sy'n cysgodi gweithwyr Gyrfa Cymru gael eu goruchwylio bob amser a pheidio â chael mynediad un i un at bobl ifanc neu oedolion hyd yn oed os oes ganddynt wiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Nid yw Gyrfa Cymru yn is-gontractio unrhyw ran o'i waith o fewn ei gylch gwaith gyda chleientiaid i ddarparwyr trydydd parti.

Mewn rhai achosion, efallai y bydd yn ofynnol i ddarparwyr sicrhau ansawdd a gwerthuso ddangos bod ganddynt brosesau diogelu ar waith os ydynt yn ymgymryd ag unrhyw waith heb oruchwyliaeth gydag unigolion (e.e. grwpiau ffocws). Mae gwaith contract arall yn annhebygol o gynnwys gwaith heb oruchwyliaeth gydag unigolion.

DEFNYDDIO FFOTOGRAFFAU A DELWEDDAU DIGIDOL O BLANT A PHOBL IFANC

Mae gan Gyrfa Cymru weithdrefnau ar waith ar ddefnyddio ffotograffau a delweddau o bobl ifanc i osgoi eu camddefnyddio ar wefannau ac mewn cyhoeddiadau eraill. Rhaid i gyflogeion Gyrfa Cymru ac unrhyw un sy'n gweithredu ar ran Gyrfa Cymru yn y cyd-destun hwn gydymffurfio â'r gweithdrefnau hyn.

ADOLYGIAD O'R POLISI

Caiff y polisi hwn ei adolygu gan Gyrfa Cymru bob blwyddyn neu'n amlach os cyflwynir deddfwriaeth neu ganllawiau newydd gan Lywodraeth Cymru. Y Cyfarwyddwr Cyflenwi a Datblygu sy'n gyfrifol am hyn mewn ymgynghoriad â Phenaethiaid perthnasol.

Atodiad 1

Bod yn agored i niwed oherwydd safbwyntiau eithafol

Mae Gyrfa Cymru yn cydnabod ei ddyletswydd i amddiffyn unigolion rhag unrhyw fath o safbwyntiau neu ideoleg eithafol a allai arwain at niweidio eu hunain neu eraill. Diffiniad safbwyntiau eithafol yw 'cyfres o syniadau a allai gyfiawnhau enllib neu drais yn erbyn unigolion, grwpiau neu'r hunan'.

Bregusrwydd yw eich bod yn agored i anaf, ei bod yn anodd amddiffyn eich hun, neu eich bod yn agored i ymosodiad moesol neu ideolegol.

Mae'r strategaeth Prevent yn rhan o strategaeth gwrthderfysgaeth CONTEST. Y nod yw lleihau'r bygythiad i'r DU o du terfysgaeth drwy atal pobl rhag dod yn derfysgwyr neu gefnogi terfysgwyr. Mae'n cynnwys eithafiaeth ddi-drais a'i nod yw ymyrryd cyn i unigolion symud i grwpiau eithafol. Bydd angen i gyflogeion sy'n ymwneud ag unigolion wybod sut i adnabod eithafiaeth, sut i gyfeirio pryderon a chael cymorth i'r rhai sy'n agored ac mewn perygl o niwed o'r safbwyntiau hyn.

Diffinnir eithafiaeth yn strategaeth Prevent Llywodraeth Ei Mawrhydi 2011 fel a ganlyn:

'gwrthwynebiad llafar neu weithredol i werthoedd Prydeinig sylfaenol, gan gynnwys democratiaeth, rheolaeth y gyfraith, rhyddid unigol a pharch a goddefgarwch tuag at wahanol grefyddau a chredoau'

Mae eithafiaeth ddi-drais fel y disgrifiad uchod ond nid yw trais yn rhan ohoni.

Atodiad 2 Dogfennau perthnasol.

Polisïau a gweithdrefnau Gyrfa Cymru:
Gweithdrefnau Diogelu
Polisi Chwythu'r Chwiban
Polisi Urddas a Pharch
Polisi a Gweithdrefnau Recriwtio a Dethol
Gweithdrefnau Datgelu a Gwahardd
Polisi Disgyblu a Chwyno
Cod Ymddygiad - Safonau mewn Polisi Bywyd Cyhoeddus
Strategaeth PREVENT

Ffurflenni Gyrfa Cymru:
Tynnu lluniau
Ffurflen Atgyfeirio SVG1 (2016)

Deddfwriaeth:

- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf Plant 1989 a 2004
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005
- Deddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed 2006 (diwygiwyd gan Ddeddf Diogelu Rhyddid 2012)
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011
- Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015
- Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

Canllawiau statudol:

- Cadw dysgwyr yn ddiogel (2015)
- Canllawiau dyletswydd PREVENT diwygiedig: ar gyfer Cymru a Lloegr (2019)
- Canllawiau Dyletswydd Channel: Amddiffyn pobl sy'n agored i niwed rhag cael eu denu at derfysgaeth (2015)
- Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i fynd i'r afael â Chamfanteisio ar Blant (Cymru) (2016)
- Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, cyfrol 1 – Cyflwyniad a Throsolwg
- Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: cyfrol 2: Adolygiadau Ymarfer Plant
- Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: cyfrol 3: Adolygiadau Ymarfer Oedolion
- Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl cyfrol 5 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant sydd mewn perygl
- Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl cyfrol 6 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Oedolion sydd mewn perygl

Canllawiau defnyddiol

- Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019
- Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Rhannu gwybodaeth i ddiogelu plant
- Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Taflen ffeithiau Rhannu Gwybodaeth i Ddiogelu Plant ac Oedolion
- Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu: Datganiad polisi parhad dysgu
- Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu: Cefnogi'r system addysg
- Egwyddorion ac arferion diogelu ffrydio byw ar gyfer ymarferwyr addysg
- Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd: Gweithgarwch a reoleiddir gyda phlant yng Nghymru

- Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd: Gweithgarwch a reoleiddir gydag oedolion yng Nghymru

Ailddrafftiwyd y polisi hwn gan y Cyfarwyddwr Cyflenwi a Datblygu yn 2020. Wrth adolygu'r polisi hwn, ymgynghorwyd â'r canlynol a chafwyd mewnbwn ac adborth ganddynt.

Sefydliad	**Cynrychiolwyr**	
Prif Weithredwr	Nikki Lawrence	
Uwch Dîm Rheoli	Penaethiaid	
Blake Morgan	Cyfreithwyr	
Cymorth allanol	Claire Sharp (Uwch Swyddog Hyfforddi)	Plant yng Nghymru

Dyddiad Adolygu: Hydref 2022